

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF
GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR**

Mr C. B. Jones

**Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach CF40 2XX**

Ffôn: (01443) 424098 – J Nicholls

**PWYLLGOR CRAFFU – CYNNAL GWASANAETHAU CYHOEDDUS,
CYMUNEDAU A FFYNIANT
YN CYFARFOD YN RHINWEDD EI SWYDDOGAETH BENODEDIG YN
BWYLLGOR MATERION TROSEDDAU AC ANHREFN
(O dan Adrannau 19 a 20, Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder
2006)**

**Bydd cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu - Cynnal Gwasanaethau Cyhoeddus,
Cymunedau a Ffyniant, ac yntau'n Bwyllgor Materion Troseddau ac Anhrefn, yn
cael ei gynnal ym Mhencadlys y Cyngor Bwrdeistref Sirol, Y Pafiliynau, Cwm
Clydach (Y Siambr) ddydd Iau 22 Chwefror 2018 am 5.00pm.**

AGENDA

1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau yn unol â gofynion Côt Ymddygiad y Cyngor.

Noder:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm y mae eu buddiant yn ymwneud ag e a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant personol sy'n rhagfarnu, **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

COFNODION

Tudalen

2. Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Craffu - Cynnal Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau a Ffyniant, ac yntau'n Bwyllgor Craffu Materion Troseddau ac Anhrefn, a gynhaliwyd ar 26 Hydref 2017. **1-6**
3. Derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch cynnydd datblygu Cynllun Cyflawni Diogelwch Cymuned Cwm Taf 2018-21 yn dilyn **7-14**

craffu ar Aseiad Anghenion Diogelwch Cymuned Cwm Taf a Blaenoriaethau Strategol (drafft).

4. Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus Arfaethedig (Sylweddol Meddwol) 2018. Ceisio barn yr Aelodau ynghylch y cynnig i gadw'r Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus presennol er mwyn rheoli ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig ag alcohol yn Rhondda Cynon Taf ac estyn y Gorchymyn i gynnwys dau barth gwaharddedig penodol i reoli defnydd sylweddau meddwol yng nghanol trefi Pontypridd ac Aberdâr. **15-27**
5. Trafod rhaglen waith ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2017/18 ar gyfer Pwyllgor Craffu – Cynnal Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau a Ffyniant yn cyfarfod yn rhinwedd ei swyddogaeth benodedig yn Bwyllgor Materion Troseddau ac Anhrefn.

EITEMAU BRYS

6. Trafod unrhyw faterion a ddylai gael eu hystyried yn y cyfarfod ar frys oherwydd amgylchiadau arbennig yn nhyb y Cadeirydd.

Cylchrediad:

At bob aelod o Bwyllgor Craffu - Cynnal Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau a Ffyniant, ac yntau'n Bwyllgor Troseddau ac Anhrefn

Cadeirydd ac Is-gadeirydd Pwyllgor Craffu – Cynnal Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau a Ffyniant (Cyngorwyr y Fwrdeistref Sirol S. A. Bradwick a T. Williams yn eu tro)

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol:

A. Chapman
M. Fidler Jones
P. Howe
G. Jones
W. Jones

D. Owen-Jones
G. Stacey
W. Treeby
M. Weaver

15 Chwefror 2017